Cyd-bwyllgor Comisiynu
Joint Commissioning Committee

# Cofnodion wedi'u Cadarnhau
# Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid CBCGC
# 28 Ebrill 2026 am 13:30
# Microsoft Teams

**Aelodau:**

| | | |
|---|---|---|
| Paul Worthington | (PW) | Cadeirydd yr Is-bwyllgor CPC ac Aelod Lleyg |
| Abigail Harris | (AH) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Ian Green | (IG) | Aelod Lleyg a Chadeirydd Annibynnol y Cyd-bwyllgor |
| Nia Roberts | (NR) | Aelod Lleyg |

**Yn Bresennol:**

| | | |
|---|---|---|
| Aaron Fowler | (AF) | Ysgrifennydd y Pwyllgor |
| Alex Crawford | (AC) | Dirprwy Gyfarwyddwr Corfforaethol, Cynllunio a Strategaeth |
| Melanie Wilkey | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Arbenigol |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Ambiwlans ac 111 |
| Stacey Taylor | (ST) | Cyfarwyddwr Cyllid a Gwerth/Dirprwy Brif Gomisiynydd |
| Sue O'Leary | (SO'L) | Cyfarwyddwr Comisiynu Gwasanaethau Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau sy'n Agored i Niwed |

**Ymddiheuriadau:**

| | | |
|---|---|---|
| George Galletly | (GG) | Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cynllunio a Strategaeth |
| Hayley Thomas | (HT) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| Huw George | (HG) | Prif Gomisiynydd Dros dro |

**Arsylwyr**

| | | |
|---|---|---|
| Matt Edwards | (ME) | Ysgrifennydd Cynorthwyol y Pwyllgor – Llywodraethiant a Busnes |

**Cofnodion:**

| | | |
|---|---|---|
| Maxine Evans | (MEv) | Swyddog Sicrwydd a Risg, CBCGC |

,Agorodd y cyfarfod am 13:30

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| PPF26/104 | **1.1 Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a gwnaed y cyflwyniadau. Roedd y cyfarfod, a gynhaliwyd trwy Microsoft Teams, yn ffurfio cworwm ac ni chodwyd unrhyw wrthwynebiadau i recordio'r cyfarfod at ddibenion gweinyddol. |
| PPF26/105 | **1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>**Nodwyd** yr ymddiheuriadau am absenoldeb fel y manylwyd uchod. |
| PPF26/106 | **1.3 Datganiadau o Fuddiant**<br>Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. Atgoffodd y Cadeirydd yr aelodau a'r rhai oedd yn bresennol ynghylch pwysigrwydd cofnodi datganiadau o fuddiant. |
| PPF26/107 | **1.4 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2026**<br>**Cymeradwywyd** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Chwefror 2026 fel cofnod gwir a chywir. |
| PPF26/108 | **1.5 Cofnod Camau Gweithredu**<br>Derbyniwyd y Cofnod Camau Gweithredu. **Nododd** yr aelodau:<br>• **PPF25/012** – nad yw'r gofynion hyfforddi statudol/gorfodol ar gyfer Aelodau Lleyg eto wedi'u cadarnhau. Dywedodd AF y byddai nodyn yn cael ei rannu all-lein pan fydd y gofynion hyfforddi'n eglur. |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| | **Cytunodd** yr aelodau fod gweddill y camau gweithredu oedd wedi'u marcio fel rhai 'wedi'u cau' wedi eu cwblhau. |
| PPF26/109 | **2.1 Cofrestr Risg Sefydliadol (CRS) CBCGC – Risgiau a Neilltuwyd i'r Is-bwyllgor CPC**<br>Derbyniodd y Pwyllgor y risgiau a neilltuwyd i'r is-bwyllgor CPC o Gofrestr Risgiau Gweithredol CBCGC ar 31 Mawrth 2026. Yn dilyn craffu ac adolygu gan yr is-bwyllgor CPC, bydd y Cyd-bwyllgor yn derbyn cofrestr risg mis Mawrth 2026 yn ei gyfarfod ym mis Mai 2026. **Nododd** yr aelodau:<br>• fod pedair risg gomisiynu a dwy risg gorfforaethol gyda sgôr risg o bymtheg ac uwch wedi'u neilltuo i'r Is-bwyllgor CPC.<br>• Roedd Risg 68 - Gwasanaeth Dyfeisiau Mewnblaniad Clywedol Arbenigol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro (BIPCF)), wedi'i dwysáu a nodwyd fod y risg hon wedi bod ar y Gofrestr Risg o'r blaen ond ei bod wedi'i dad-ddwysáu ym mis Ionawr 2026. Fodd bynnag, ers hynny codwyd nifer o faterion ansawdd cysylltiedig ag agweddau ar amseroedd aros ar gyfer y grŵp hwn o gleifion sydd yn agored iawn i niwed, a hyn arweiniodd at ail-ddwysáu'r risg.<br>• Risg 61 - Roedd llawdriniaeth gordewdra ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru wedi'i ddad-ddwysáu oherwydd y trefniadau interim sydd ar waith gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe (BIPBA), gan nodi y bydd y risg yn parhau ar y Gofrestr Risg hyd nes y caiff ateb parhaol ei ddarganfod.<br>• Tynnwyd sylw at yr ymdrechion parhaus i wella'r gofrestr risg. Dywedodd AF y bydd adolygu a goruchwylio risg yn barhaus yn cyfrannu at aeddfedrwydd risg y CBC (Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru) ac yn cefnogi datblygiad a chymeradwyaeth derfynol Fframwaith Sicrwydd ar y Cyd (FfSC) cadarn, ochr yn ochr â rhoi ystyriaeth i, a gweithredu datganiad parodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y Cyd-bwyllgor.<br><br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• Risg 68 - cafwyd mwy o wybodaeth am y rheswm dros ddwysáu'r risg hon gan nodi bod y gwasanaeth wedi cyrraedd ei darged amseroedd aros 52 wythnos erbyn diwedd mis Mawrth 2026 trwy fentrau rhestrau aros ond bod angen datrysiad gweithlu cynaliadwy i symud at darged amseroedd aros 26 wythnos trwy ddull graddol. Disgwylir cynllun gweithlu a bydd risg yn parhau i fod wedi'i dwysáu i lefel 3 hyd nes y ceir cynllun clir yn nodi sut y bydd y gwasanaeth yn cael ei ddarparu.<br>• Risg 61 – cafwyd disgrifiad manylach o'r trefniadau interim gyda BIPBA ar gyfer gwasanaethau gordewdra, gan nodi'r angen am gymeradwyaeth ffurfiol ar lefel weithredol, gyda chynlluniau yn y dyfodol i ystyried darparwr dynodedig gan geisio cydbwyso tegwch ar gyfer cleifion Gogledd Cymru.<br>• Croesawyd gwelliannau i'r disgrifiadau o'r risgiau. Amlygwyd yr angen i ddynodi risgiau ariannol a strategol sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig o ran sicrhau sefyllfa fantoledig ar gyfer 2026-27 ac effaith yr adolygiadau strategol arfaethedig, gan y byddai'r rhain yn debygol o amlygu risgiau pellach i'r CBC.<br>• Trwy fireinio'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn barhaus, y nod fydd symud o risgiau gweithredol i brif risgiau ar lefel cyfarwyddiaethau unigol, gyda model pyramid o ddwysáu yn bwydo i mewn i'r JAF; bydd y newidiadau'n cael eu hadlewyrchu mewn cyfarfodydd pwyllgor sydd ar ddod.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad,<br>• **Adolygu** a **chraffu** ar y risgiau a neilltuwyd i'r is-bwyllgor ar ran CBCGC; a<br>• **Cymeradwyo'r** Gofrestr Risg Gorfforaethol er mwyn rhoi **sicrwydd** i'r Cyd-bwyllgor ynghylch rheolaeth effeithiol y risgiau. |
| PPF26/110 | **2.2 Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol CBCGC** |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| | Derbyniwyd Adroddiad Perfformiad Gweithredol Cyfunol mis 11 CBCGC a oedd yn rhoi manylion am berfformiad gweithredol ac adroddiad ar weithlu CBCGC. Tynnodd ST sylw at:<br>• Gwelliannau mewn dialysis, yn enwedig yng Ngogledd Cymru, ac mewn amseroedd cyflawni sganiau PET.<br>• Gostyngiadau yn arosiadau cleifion mewnol ac allanol mewn arbenigeddau penodol, ond gan nodi dwysáu parhaus mewn gwasanaethau fel Clinig Caswell ac unedau diogelwch canolig. Cydnabuwyd fod rhai gwasanaethau’n mynd i mewn i gyfnodau hir o ddwysáu a bydd diweddariadau manylach ar y gwasanaethau hyn yn yr adroddiad nesaf.<br><br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• Y Gwasanaeth Cludo Cleifion Di-frys (NEPTS) – materion perfformiad yn cynnwys cyfraddau cyrraedd yn hwyr uchel a siwrneiau heb eu cwblhau. Gofynnwyd a oedd opsiynau eraill wedi'u hystyried, er enghraifft, y potensial i ddarparwyr amgen ddarparu'r gwasanaeth hwn, neu fodel cymysg. Cynghorwyd fod y gwasanaeth yn cael ei ail drefnu i gyd-fynd â'r galw ac y byddai hyn yn cyfrannu'n sylweddol at wella'r sefyllfa, fodd bynnag bydd bwlch yn parhau rhwng galw a gallu. Nodwyd y dylai cyflwyno unrhyw fodelau gwasanaeth newydd ffurfio rhan o’r adolygiad strategol o Gynllun Blynyddol 2026/27 a fydd yn rhoi eglurder ynghylch penderfyniadau comisiynu’r dyfodol.<br>• Unedau Diogelwch Canolig – trafodwyd yr angen am feini prawf ac amserlenni dad-ddwysáu clir ar gyfer Clinig Caswell. Roedd cyfarfodydd gyda'r gwasanaeth bellach wedi newid i fod yn rhai misol, a nodwyd bod cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer 30 Ebrill. Gofynnwyd am adroddiad cydgrynhoi chwe mis er mwyn deall yr holl welliannau sydd wedi’u rhoi ar waith, i gytuno ar fesurau lliniaru pellach ac i bennu llwybr clir allan o ddwysáu.<br>• Y Gwasanaeth Ambiwlans – trafodwyd yr ystadegau perfformiad yn fanylach, yn benodol cyfyngiadau amseroedd ymateb canolrifol a gwerth data 90fed canradd. Nodwyd trafodaethau parhaus gydag Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST) i bennu nodau perfformiad ystyrlon a thaflwybrau gwella.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Unedau Diogelwch Canolig - rhannu canlyniadau’r cyfarfod a gynhaliwyd ddydd Iau gydag AH (BIPBA), gan gynnwys rhoi eglurder ar y camau gweithredu sydd angen sylw o hyd a'r llwybr allan o ddwysáu - SO'L.<br>• Y Gwasanaeth Ambiwlans - rhannu siartiau sy'n dangos perfformiad canolrifol a 90fed canradd ar draws pob un o gategorïau’r gwasanaeth ambiwlans gyda'r pwyllgor at ddibenion craffu’n fanylach ar berfformiad – RW.<br><br>Penderfynodd yr Aelodau:<br>• **Nodi’r** wybodaeth yn yr adroddiad perfformiad gweithredol cyfunol. |
| PPF26/111 | **2.3 Adroddiad Perfformiad Ariannol CBCGC – Mis 12 2025-2026**<br>Derbyniwyd Adroddiad Perfformiad Ariannol mis 12 CBCGC, ac amlygwyd y canlynol:<br>• Gorwariant diwedd blwyddyn o £6.3 miliwn, a oedd yn welliant ar ragolygon cynharach. Roedd hyn yn fwy ffafriol na'r disgwyl oherwydd lefelau gweithgarwch is dros y gaeaf, oedi o ran agor Uned Rhwydwaith Arennau Cymru Castell-nedd Port Talbot a thanwariant arall ar wariant heb ei ymrwymo.<br>• Nid oedd yn glir a oedd y gostyngiad mewn gweithgarwch hefyd yn gysylltiedig â'r broses rheoli atgyfeiriadau a weithredwyd gyda GIG Lloegr gan fod y broses hon yn dal ar y camau cynharaf.<br>• Cadarnhawyd fod cyfrifon ariannol y CBC wedi'u cyflwyno i BICTM i'w cydgrynhoi â'u cyfrifon eu hunain.<br><br>**Trafododd** yr aelodau: |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| | • Y pwysau parhaus mewn meysydd fel TAVI ac NICU, gyda darpariaethau wedi'u cynnwys yn y Cynllun Blynyddol newydd, gan nodi bod y rhain yn rhan o'r adolygiadau strategol wedi'u cynllunio, a'r pwyslais sydd i'w roi ar bwysigrwydd monitro ariannol posibl gan adnabod ac adrodd yn gynnar ar bwysau ar wasanaeth a phwysau ariannol sy'n dod i'r amlwg.<br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** sefyllfa ariannol diwedd-mis |
| PPF26/112 | **2.4 Cynllun Sylfaen CBCGC -Diweddariad Chwarterol**<br>Cafodd yr aelodau ddiweddariad er sicrwydd yn erbyn cyflawniadau Chwarter 1, 2, 3 a 4 y Cynllun Sylfaen. Derbyniwyd yr adroddiad fel yr oedd, gan gydnabod lefel y manylder ynddo a'r meysydd coch ac oren sydd yn gysylltiedig â phenderfyniadau a wnaed yn y trafodaethau ar y Cynllun Tymor Canolig Integredig i beidio â buddsoddi mewn meysydd gwaddol y cytunwyd arnynt eisoes. Tynnodd AC sylw at y ffaith mai adroddiad cau ar gyfer cynllun sylfaen 2025-26 oedd hwn, gan nodi meysydd o gyflawniad llwyddiannus a phrosiectau sy'n trosglwyddo i Gynllun Blynyddol 2026-27 oherwydd cyfyngiadau capasiti a dibyniaethau allanol. Roedd adroddiadau eithriad wedi'u darparu ar gyfer yr meysydd cyflawni â sgôr goch.<br><br>**Trafododd** yr aelodau:<br>• Yr angen hanfodol am well sicrwydd ynghylch cyflawniad yn erbyn Cynllun 2026-27, gan fyfyrio ar wersi a ddysgwyd a'r angen i nodi materion cysylltiedig â chyflawniad yn gynnar, gan dynnu sylw at yr angen am drylwyredd, penderfyniad a chyflenwi gwahanol i'r llynedd. Ymatebodd ST, o ran gweithio'n wahanol, mai'r ymdriniaeth hyd yma fu gweithio'n agosach ag arweinwyr Gweithredol y Bwrdd Iechyd (BI) i ddarparu haen ychwanegol o drylwyredd er mwyn sicrhau ymgysylltiad a mewnbwn gan y byrddau iechyd, gan gydnabod bod nifer o'r rhaglenni cyflenwi'n rhai mawr iawn.<br>• Codwyd lefel y manylion a ddarperir i'r is-bwyllgor, gan awgrymu y gellid crynhoi'r atodiadau at ddibenion llywodraethu, gan fod yn gliriach o ran yr hyn y mae angen i'r is-bwyllgor ei dderbyn i ddarparu'r lefel o oruchwyliaeth a sicrwydd sydd ei hangen ar aelodau. Cytunwyd y byddai lefel y manylder yn cael ei adolygu, gan ganolbwyntio ar adroddiadau cryno ac eithriad ac adnabod yn gynnar unrhyw faterion sy'n effeithio ar gyflawniad. Crybwyllodd AC gynlluniau i symud tuag at ddatrysiad digidol ar gyfer olrhain cyflawniad a fydd yn darparu adroddiadau mewn arddull dangosfwrdd i alluogi drilio i lawr yn ôl yr angen yn hytrach na bod popeth yn cael ei gynnwys yn y papur.<br><br>**CAMAU GWEITHREDU:**<br>• Edrych ar, ac adolygu lefel manylder a fformat adroddiadau eithriad a'r olrheinwyr a ddarperir i'r pwyllgor, gan sicrhau eu bod yn taro'r nodyn cywir at ddibenion sicrwydd a llywodraethu – AC.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad fel adroddiad cau yn erbyn cyflawniad Cynllun Sylfaen CBCGC.<br>• **Nodi'r** gwersi a ddysgwyd trwy gwblhau proses y Cynllun Sylfaen a'r diweddariadau chwarterol ar gynnydd<br>• **Nodi'r** camau nesaf o ran gweithredu a chyflawni'r Cynllun Blynyddol. |
| PPF26/113 | **2.5 Cyflawniad y Cynllun Blynyddol (2026-27)**<br>Darparwyd diweddariad ar Gynllun Blynyddol CBCGC ar gyfer 2026/27 sydd wedi'i osod o fewn cyd-destun 3 blynedd. Nodwyd fod y Cynllun Blynyddol wedi'i gymeradwyo gan y Cyd-bwyllgor ar 30 Mawrth 2026 trwy weithred y Cadeirydd yn dilyn cytundeb mwyafrif aelodau'r Pwyllgor a'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar yr un diwrnod. Roedd yr adroddiad a rannwyd yn rhoi diweddariad ar drefniadau a mecanweithiau ar gyfer cyflawni'r Cynllun. Tynnodd GG sylw at y canlynol: |

<table>
<tr><th>Cyfeirnod yr Eitem</th><th>Eitem Agenda</th></tr>
<tr><td></td><td>
<ul>
<li>Byddai’r Cynllun Blynyddol yn canolbwyntio ar yr wyth maes blaenoriaeth a nodwyd ac y cytunwyd arnynt gan y Cyd-bwyllgor ym mis Mawrth.</li>
<li>Roedd swyddogaeth cymorth prosiect lawn wedi'i sefydlu, gyda chyflawniad fesul cam a phwyntiau gwirio canol blwyddyn i ddarparu cyfleoedd i ymgysylltu, gan nodi'r cysylltiadau â'r Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol (GACC) i sicrhau ymgysylltiad clinigol, ariannol a gwybodeg â’r Byrddau Iechyd.</li>
<li>Roedd manylion adolygiadau strategol a chwmpas archwiliadau dwfn yn cael eu cwblhau a byddant yn cael eu rhannu gyda'r Cyd-bwyllgor ym mis Mai.</li>
</ul>
Trafododd yr aelodau:
<ul>
<li>Yr her ddeuol o reoli busnes yn wyneb pwysau ariannol sylweddol, ochr yn ochr â'r adolygiadau strategol a'r archwiliadau dwfn arfaethedig, gyda phwyslais ar gapasiti a gallu o fewn y CBC i gyflawni ar y ddwy lefel. A oes yna adnoddau allanol i gefnogi hyn, gan nodi maint sylweddol yr her i Fyrddau Iechyd hefyd. Codwyd hefyd rôl Perfformiad a Gwella GIG Cymru fel ffynhonnell bosibl o gymorth.</li>
<li>Amlygodd AH raddfa'r arbedion angenrheidiol ar draws y byrddau iechyd, a'r angen i fod yn glir ynghylch ymhle y byddai budd arbedion yn cael ei briodoli o fewn y system er mwyn osgoi cyfrif dwbl.</li>
<li>Pwysleisiwyd yr angen i wneud penderfyniadau anodd ar frys, cyfyngiadau dadansoddi parhaus heb unrhyw gamau gweithredu, a phwysigrwydd canolbwyntio adnoddau ar newid strategol yn hytrach nag ar dorri costau yn y tymor byr, a dyma pam y mae’r adolygiadau strategol a chyflawni newid ar gyflymder mor bwysig.</li>
<li>Yr angen am ddata meincnodi cyson a deallusrwydd busnes ar draws y Byrddau Iechyd i sicrhau un fersiwn sengl o'r gwir i gefnogi gwneud penderfyniadau ac osgoi cymariaethau anghyson.</li>
</ul>
Penderfynodd yr Aelodau:
<ul>
<li>Nodi’r diweddariad a ddarparwyd; a</li>
<li>Darparu unrhyw gyngor ac arweiniad pellach ar ymgysylltu a chyflawni ar y cyd â Byrddau Iechyd a chymuned ehangach y GIG.</li>
</ul>
</td></tr>
<tr><td>PPF26/114</td><td>
2.6 Rheoli Atgyfeiriadau ac Optimeiddio Llwybrau<br>
Roedd yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar y gwaith parhaus sy’n cael ei wneud i reoli’r pwysau ariannol sy’n deillio o dwf mewn gweithgarwch yn GIG Lloegr trwy fanteisio ar nifer o gyfleoedd, a'r adolygiad o Fframwaith Rheoli Atgyfeiriadau cyfredol CBCGC. Amlygwyd y canlynol:
<ul>
<li>Roedd y rhagdybiaethau cychwynnol am y prosesau rheoli atgyfeiriadau oedd eisoes yn bodoli yn optimistaidd, gan arwain at ffocws ar ddadansoddi data a chyfyngu cwmpas y rhaglen i brosiectau peilot mewn arbenigeddau allweddol yn 2026-27.</li>
<li>Roedd y rhaglen wedi nodi Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) megis gostyngiadau mewn apwyntiadau cleifion allanol newydd ac apwyntiadau dilynol, gyda tharged o ostyngiad o 20% yn yr 13 prif arbenigedd, gan anelu at enillion cynhyrchiant ac osgoi costau yn hytrach na thwf.</li>
<li>Mae angen i'r rhaglen gael ei harwain a'i chefnogi'n glinigol, gan wahaniaethu rhwng rheolaethau contractio dydd i ddydd a rheolaeth llwybrau ehangach, gan sicrhau bod argymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn gyraeddadwy.</li>
</ul>
Trafododd yr aelodau:
<ul>
<li>Y targedau ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol newydd, gan egluro mai fframwaith perfformiad Cymru sy’n gosod y targedau, gyda gwaith ar y gweill i ymwreiddio’r metrigau hyn mewn prosesau adrodd a sicrhau aliniad â phrosesau'r byrddau iechyd.</li>
<li>Cyfleoedd i gydweithwyr CBCGC gwrdd ag NJ i drafod mewnbwn clinigol a chefnogaeth ar gyfer y prosiect rheoli atgyfeiriadau ac optimeiddio llwybrau</li>
</ul>
</td></tr>
</table>

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| | **CAM GWEITHREDU:**<br>• Rhannu fframwaith rheoli perfformiad Cymru wedi'i ddiweddaru ar gyfer apwyntiadau cleifion allanol newydd gyda'r pwyllgor i sicrhau bod aelodau wedi'u briffio'n llawn ar y DPA perthnasol – ST.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** adroddiad a chymryd sicrwydd ynghylch y broses, y canfyddiadau a chamau nesaf yr adroddiad hwn. |
| PPF26/115 | **3.1 Datganiad Llywodraethu Blynyddol**<br>Cyflwynodd AF y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) drafft, gan esbonio bod y datganiad yn adroddiad diwedd blwyddyn sy'n ofynnol i ddangos sut y cafodd y gofynion llywodraethu eu bodloni, gan fwydo i mewn i adroddiad blynyddol a chyfrifon CTM. Mae'r ddogfen wedi'i hadolygu'n fewnol gan Uwch Dîm Arweinyddiaeth CBCGC a'i rhannu gyda'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau er mwyn cael eu mewnbwn ar amcanion ansawdd a diogelwch. Gwahoddwyd yr aelodau i wneud sylwadau, ymholiadau ac awgrymiadau ar gyfer cywirdeb neu gyflawnrwydd cyn i'r datganiad gael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio a Risg CTM ar 19 Mai, ac i'r Cyd-bwyllgor ym mis Mai er cymeradwyaeth.<br>• Nododd yr aelodau drylwyredd yr adroddiad a'i ddefnyddioldeb fel teclyn briffio i aelodau newydd y pwyllgor.<br>• Crybwyllodd PW ddau sylw bach yn ymwneud ag adrannau 7.5 ac 8.4, gan awgrymu y dylid cynnwys y gwaith datblygu a fu'n rhan o'r adroddiad perfformiad, a chytunodd i anfon y manylion hyn at AF ar wahân.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Adolygu** a **rhoi adborth** ar agweddau'r Adroddiad Atebolrwydd drafft sy'n berthnasol i gynllunio, perfformiad a chyllid.<br>• **Cefnogi'r** Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft er cymeradwyaeth y Pwyllgor. |
| PPF26/116 | **3.2 Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd yr Is-bwyllgor**<br>Rhoddodd AF ddiweddariad llafar ar Arolwg Effeithiolrwydd Blynyddol 2025-26, gan nodi'r gyfradd ymateb isel i'r holiadur, gyda dim ond pedwar ymateb wedi'u derbyn gan aelodau CPC a'r Is-bwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Chanlyniadau, a phwysleisiodd yr angen am fwy o ymgysylltiad i sicrhau bod yr adolygiad yn ystyrlon.<br><br>Nodwyd, er bod y dyddiad cau wedi mynd heibio, y dylai aelodau gyflwyno eu hymatebion cyn gynted â phosibl. Bydd yr adborth yn llywio diwrnod strategaeth y Cyd-bwyllgor ym mis Mehefin ac yn helpu i ddatblygu cynllun i wella effeithiolrwydd pwyllgorau.<br><br>**Penderfynodd** yr Aelodau:<br>• **Nodi'r** Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Is-bwyllgorau |
| PPF26/117 | **4.1 Diweddariad ar yr Camau Gweithredu ym maes Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed (IMADGAN)**<br>Rhoddodd SO'L diweddariad ar ddau gam gweithredu ar IMADGAN a gododd o'r cyfarfod diwethaf ym mis Chwefror.<br>• **Unedau Diogelwch Canolig a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (CAMHS) - taflwybr gwella ar gyfer Derbyniadau a Dychwelyd Cleifion i'w Hardal:** nodwyd ddatblygiad taflwybr gwella ar gyfer derbyniadau i welyau cleifion mewnol mewn unedau diogelwch canolig a CAMHS, gan gynnwys ffigurau defnydd cyfredol a chyfartaledd treigl dros y 12 mis diwethaf. Mae'r taflwybr ar waith yng Nghlinig Caswell, gyda dau dderbyniad yn ystod y mis diwethaf. Bydd monitro'n parhau fel rhan o adolygiad strategol y Cynllun Blynyddol. Mae ymdrechion i wella dychwelyd cleifion i'w hardal eu hunain, |

| Cyfeirnod yr Eitem | Eitem Agenda |
|---|---|
| | derbyniadau a rhyddhau yn parhau a byddant yn cael eu hymwreiddio ar draws yr holl wasanaethau fel rhan o'r adolygiad strategol.<br>• **Rhaglen Gofal Iechyd Parhaus:** Nodwyd, er bod cynllun gwaith gyda chamau gweithredu wedi'u dynodi mewn perthynas â'r fframwaith comisiynu cenedlaethol, nad oes rôl na gofynion clir wedi'u sefydlu ar gyfer y CBC eto. Mae'r sgwrs yn mynd yn ei blaen a bydd y Cyd-bwyllgor yn parhau i gymryd rhan. |
| PPF26/118 | **4.2 Protocol Ymgynghori ac Ymgysylltu (Newid Gwasanaeth rhwng y CBC a'r Byrddau Iechyd)**<br>Rhoddodd AC ddiweddariad byr ar statws y Fframwaith Ymgynghori ac Ymgysylltu, gan nodi y disgwylir i'r ddogfen ddod i law o hyd ac mai'r rheswm dros yr oedi diweddar yw salwch staff yn Llais. Mae'r gwaith yn cael ei ailddyrannu i dîm AC a bydd yn cael ei ddilyn i fyny fel sy'n briodol. Cadarnhaodd AF y byddai'r eitem hon yn aros ar flaengynllun yr is-bwyllgor ac yn cael ei hystyried eto unwaith y bydd y fframwaith ar gael.<br>Gallai newidiadau gwleidyddol posibl yn Llywodraeth Cymru effeithio ar, ac oedi cynnydd y fframwaith. |
| PPF26/119 | **3.4 Blaengynllun Busnes 2026-2027**<br>Cynhwyswyd y Blaengynllun Busnes er gwybodaeth. |
| PPF26/120 | **3.5 Unrhyw Fater Arall**<br>Ni chodwyd unrhyw faterion eraill. |
| PPF26/121 | **3.6 Eitemau i'w gohirio/uwchgyfeirio i'r Cyd-bwyllgor Comisiynu / Is-bwyllgorau eraill ac adolygiad o unrhyw gamau gweithredu ar gyfer cyfarfodydd y dyfodol**<br>Nid oedd unrhyw eitemau i'w gohirio na'u huwchgyfeirio y tro hwn. |
| PPF26/122 | **3.7 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Daeth y cyfarfod i ben am 15:25.<br>Nodwyd y byddai angen aildrefnu'r cyfarfod nesaf sydd wedi'i drefnu ar gyfer 30 Mehefin 2026 a rhai cyfarfodydd CPC pellach oherwydd gwrthdaro â chyfarfodydd Bwrdd Arweinyddiaeth Llywodraeth Cymru. Mae Tîm Llywodraethu Corfforaethol CBCGC wrthi'n aildrefnu dyddiadau cyfarfodydd CPC misoedd Mehefin, Awst a Rhagfyr. |